



At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 28 Chwefror 2013

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 6 MAWRTH 2013** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, Y RHYL.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O FUDDIANNAU

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYN YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 20)

I dderbyn –

(a) Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar Ragfyr 5, 2012 (copi'n amgaeedig)

(b) Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar Ionawr 24, 2013 (copi'n amgaeedig).

5 CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW (Tudalennau 21 - 24)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi'n amgaeedig) ynglŷn â chais gan Adult World i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw o ran yr eiddo yn 43 – 47 Queen Street, y Rhyl.

6 DIWEDDARIAD AR FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU AR GYFER 2013/14 (Tudalennau 25 - 28)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth aelodau i gadw'r strwythur ffioedd cyfredol hyd nes y bydd yr adolygiad o ffioedd a thaliadau trwyddedu wedi ei gwblhau.

7 ADOLYGIAD O AMODAU'R FARCHNAD AR GYFER Y RHYL (Tudalennau 29 - 40)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth aelodau i amodau diwygiedig ar gyfer Marchnad y Rhyl ynghyd â strwythur ffioedd newydd.

8 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14 (Tudalennau 41 - 42)

I ystyried Blaenraglen Waith y Pwyllgor Trwyddedu (copi'n amgaeedig).

RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL

Cymeradwyir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem(au) canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

9 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 045909 (Tudalennau 43 - 46)

I ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi'n amgaeedig) yn gofyn i aelodau bennu cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 045909.

10 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – GYRRWR RHIF 043120 (Tudalennau 47 - 114)

I ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi'n amgaaedig) yn gofyn am i aelodau bennu addaswydd Gyrrwr Rhif 043120 i barhau i ddal Trwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Brian Blakeley
Joan Butterfield
William Cowie
Richard Davies
Stuart Davies
Hugh Irving

Barry Mellor
Win Mullen-James
Peter Owen
Arwel Roberts
Cefyn Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU TREFN PENNU CEISIADAU TRWYDDEDU

CAM	DISGRIFIAD
1.	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd) i gyhoeddi'r cais yn fyr
2.	Gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno'i achos Gall yr ymgeisydd alw unrhyw dystion a fyn i gefnogi'r cais
3.	Gall aelodau'r pwyllgor holi'r ymgeisydd neu ei dystion
4.	Fe wahoddir unrhyw wrthwynebwyr i'r cais i siarad
5.	Rhoddir cyfle i'r ymgeisydd holi'r gwrthwynebwyr
6.	Gall aelodau'r pwyllgor holi'r gwrthwynebwyr
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Heddlu, Gwasanaeth Tân, Rheoli Adeiladu, Rheoli Llygredd)
8.	Gall aelodau'r pwyllgor ac wedyn yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr holi'r swyddogion technegol
9.	Fe wahoddir yr ymgeisydd i wneud datganiad terfynol
10.	Bydd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn gwneud datganiad terfynol (os bydd angen)
11.	Fe ofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra bydd y cais yn cael ei drafod gan aelodau - yr ymgeisydd, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol, y wasg a'r cyhoedd NB Yr unig bobl ddylai fod ar ôl yw – aelodau pwyllgor, y cyfieithydd, ymgynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r clerc cofnodion
12.	Bydd aelodau'r pwyllgor yn ystyried y cais gan ystyried y dystiolaeth a roddwyd
13.	Pan fydd yr aelodau wedi gwneud eu penderfyniad, fe elwir pob parti'n ôl ac fe hysbysir yr ymgeisydd o benderfyniad yr aelodau
14.	Fe hysbysir yr ymgeisydd o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Joan Butterfield, William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies (Cadeirydd), Barry Mellor, Win Mullen-James, Arwel Roberts a/ac Cefyn Williams

Arsyllwyr: Cyngorwyr Meirick Lloyd Davies a/ac David Simmons

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Gyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ & JT), Swyddog Gorfodaeth (TWE) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ & SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr Brian Blakeley, Hugh Irving a Peter Owen.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol neu ragfarnus.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryn.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Medi 2012.

Cywirdeb –

Tudalen 7 – Eitem 5, Adolygu Tair Trwydded – Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyblygu Rhif y Gyrrwr, a oedd angen ei newid [Dylid newid Rhif Gyrrwr 040298 yn (3) Atodiad 2 i Yrrwr Rhif 040448.]

Dywedodd y Cyngorwyr Joan Butterfield nad oedd ei hymddiheuriadau am absenoldeb yn y cyfarfod diwethaf wedi eu cofnodi yn y cofnodion.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2012 fel cofnod cywir.

Ar y pwynt hwn, nododd y Cadeirydd ei fwriad i newid trefn y rhaglen ar gyfer yr unigolion hynny a oedd yn mynychu'r cyfarfod i gefnogi eu ceisiadau / adolygiadau trwydded, a gwrando ar eu hachosion hwy cyn unrhyw fater arall.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai'n datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 044881

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar –

- (i) Cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd rhif 044881 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat;
- (ii) Bod yr Ymgeisydd wedi ei gollfarnu am Fethu â Darparu Sampl i'w Ddadansoddi (wrth ofalu am gerbyd modur) ar 13 Hydref 2010 a'i wahardd rhag gyrru am 16 mis (wedi ei ostwng i 12 mis ar ôl cwblhau cwrs) a'i ddirwyo £160.00;
- (iii) Bod yr Ymgeisydd wedi dal trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat ers 2006 a'i fod yn gyrru cerbyd trwyddedig adeg y drosedd (roedd yr Ymgeisydd wedi dweud ers hynny nad oedd yn cludo teithwyr talu pan ddigwyddodd y drosedd);
- (iv) Bod yr Ymgeisydd wedi methu â hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o'r drosedd o fewn saith diwrnod yn unol ag amodau trwyddedu, ac yn hytrach roedd wedi gadael i'w drwydded fynd yn ddi-rym ym mis Rhagfyr 2010;
- (v) Polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a
- (vi) Bod yr Ymgeisydd wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodedb o'r adroddiad gan ddweud bod yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd bod y mater wedi ei ddwyn gerbron y pwyllgor i asesu addasrwydd yr ymgeisydd yn wyneb y cyfnod cymharol fyr yn rhydd rhag troseddau gyrru.

Anerchodd yr Ymgeisydd y pwyllgor i gefnogi ei gais, gan fynegi ei edifeirwch ynglŷn â'r drosedd. Ymddiheurodd hefyd am fethu â hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o'r gollfarn, a oedd oherwydd dryswch a phryder a ddioddefodd ynglŷn â'r digwyddiad. Ymatebodd i gwestiynau'r aelodau ar amgylchiadau ei gollfarn a'i fethiant i ddarparu sampl i'w ddadansoddi, a chadarnhaodd iddo ddal trwydded gyrru tacsï heb ddigwyddiad ers 2006. I gloi, dywedodd yr Ymgeisydd iddo fynychu cwrs a argymhellwyd gan y llys a'i fod wedi dysgu gwersi o hwnnw. Ailadroddodd ei edifeirwch dwys a sicrhodd yr aelodau na fyddai digwyddiad o'r fath eto.

Ar y pwynt hwn, ymneiltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe -

BENDERFYNWYD caniatáu'r cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hur preifat i Ymgeisydd Rhif 044881 a rhoi rhybudd ynglŷn â difrifoldeb ei drosedd a'i ymddygiad yn y dyfodol.

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, roedd y pwyllgor wedi ei berswadio mai digwyddiad unigol oedd y drosedd a bod yr Ymgeisydd yn ddiffuant yn ei sicrhad na fyddai'n digwydd eto. Roedd hefyd wedi cymryd i ystyriaeth bolisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnhau a nododd bod caniatáu'r cais yn unol â'u polisi hwy eu hunain a'r amserlen a ddarparwyd i'r Ymgeisydd fod yn rhydd rhag collfarnhau yn gysylltiedig â diod. Yn unol â hynny, ystyriodd yr aelodau bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbydau hacni a cherbydau hur preifat ond teimlasant ei bod yn briodol rhoi rhybudd yn wyneb y drosedd a gyflawnwyd.

Cyflwynodd y Cadeirydd benderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r Ymgeisydd.

6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 044879

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar –

- (vii) Cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd rhif 044879 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat;
- (i) Nad oedd y swyddogion mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais oherwydd gwybodaeth a ddatgelwyd ar ôl datgeliad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB);
- (ii) Crynodeb o'r collfarnau a ddatgelwyd a oedd yn ymwneud â nifer o droseddau dros gyfnod o 1982 i 1995;
- (iii) Polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a
- (viii) Bod yr Ymgeisydd wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodedd o'r adroddiad gan ddweud bod yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd bod y mater wedi ei ddwyn gerbron y pwyllgor i asesu addasrwydd yr ymgeisydd i ddal trwydded o ystyried natur y collfarnhau.

Anerchodd yr Ymgeisydd y pwyllgor i gefnogi ei gais, gan ddweud ei fod yn yrrwr profiadol, yn meddu ar drwydded yrru DVLA am flynyddoedd yn rhydd rhag collfarnau moduro. Ystyriai ei fod yn dda gyda'r cyhoedd a chredai y gallai ddarparu

gwasanaeth cyhoedd gwerthfawr. Hefyd, mynegodd ei edifeirwch ynglŷn â'i orffennol, gan ddweud ei fod wedi newid ei fywyd ers hynny. Wrth ymateb i gwestiynau, manylodd yr Ymgeisydd ei ymrwymadau a'i gyfrifoldebau teuluol a'i gyflogaeth yn y gorffennol. Siaradodd hefyd am ei ddymuniad i gael gwaith fel gyrrwr trwyddedig a fyddai, teimlai, yn gam cadarnhaol.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe -

BENDERFYNWYD caniatáu'r cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hur preifat i Ymgeisydd Rhif 044879.

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Nododd yr Aelodau bod y troseddau wedi'u disbyddu ac wedi digwydd beth amser yn ôl, a bod yr Ymgeisydd wedi bod yn rhydd rhag collfarnau am ryw ddwy flynedd ar bymtheg. O ganlyniad, derbyniodd yr aelodau gyflwyniad yr Ymgeisydd iddo newid ei fywyd ers hynny, a nodi'r amgylchiadau a'r cyfrifoldebau teuluol. Nododd y pwyllgor hefyd bod caniatáu'r cais yn unol â'i bolisi ei hun ynglŷn â pherthnasedd collfarnau a'r amserlen a ddarparwyd i'r Ymgeisydd fod yn rhydd rhag troseddau. Yn unol â hynny, ystyriodd yr aelodau bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbydau hacni a cherbydau hur preifat.

Cyflwynodd y Cadeirydd benderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r Ymgeisydd.

7 ADOLYGU DWY DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau ystyried addasrwydd dau Yrrwr, rhifau 040740 a 041605 (roedd adroddiadau unigol wedi eu rhestru fel Atodiad 1 ac Atodiad 2 i'r prif adroddiad) i barhau fel gyrrwyr trwyddedig ar ôl methu â chydymffurfio â gofyniad y Cyngor i ymgymryd â phrawf gwybodaeth gyrrwr o fewn yr amserlen a bennwyd.

Ystyriodd yr Aelodau'r amgylchiadau unigol yn ymwneud â phob Gyrrwr ar wahân, gan drin pob achos ar ei haeddiant, fel a ganlyn –

(1) Gyrrwr rhif 040740 (Atodiad 1) – Dyddiad Adnewyddu 31 Rhagfyr 2011

Roedd pum nodyn atgoffa wedi eu hanfon at y Gyrrwr ers amser adnewyddu ei drwydded ac roedd wedi mynychu cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu i esbonio'r rhesymau dros ei fethiant i gymryd y prawf gwybodaeth. Roedd y pwyllgor wedi penderfynu gohirio ystyried addasrwydd y Gyrrwr tan y cyfarfod nesaf i roddi cyfle pellach i'r Gyrrwr sefyll y prawf gwybodaeth. Roedd y Swyddog Trwyddedu yn falch o adrodd bod y Gyrrwr ers hynny wedi llwyddo yn y prawf. O ganlyniad, fe –

BENDERFYNWYD cydnabod cwblhau'r prawf gwybodaeth gyrrwyr yn llwyddiannus gan Yrrwr rhif 040740 a pheidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn –

Roedd y Gyrrwr nawr wedi cydymffurfio â gofyniad y Cyngor i ymgymryd â phrawf gwybodaeth gyrwyr ac felly ystyriwyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

(2) Gyrrwr Rhif 041605 (Atodiad 2) – Dyddiad Adnewyddu 31 Rhagfyr 2011

Roedd pum nodyn atgoffa wedi eu cyflwyno i'r Gyrrwr ers amser adnewyddu ei drwydded ond nid oedd wedi gwneud unrhyw ymgais i gysylltu â swyddogion. Ar 21 Medi 2012 hysbyswyd y Gyrrwr y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu i'w ystyried. Ni chafwyd ymateb gan y Gyrrwr ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

BENDERFYNWYD atal Gyrrwr Rhif 041605 nes byddai wedi cwblhau'n llwyddiannus prawf gwybodaeth gyrwyr. Byddai methiant i sefyll y prawf yn llwyddiannus cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor (6 Mawrth 2013) yn arwain at ddwyn y mater yn ôl gerbron y pwyllgor i'w benderfynu. Byddai cwblhau'r prawf yn llwyddiannus o fewn y cyfnod atal yn arwain at roddi ei drwydded yn ôl iddo.

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn -

Ystyriai'r pwyllgor bod y Gyrrwr wedi cael digon o gyfle i gymryd prawf gwybodaeth y gyrrwr. Yn unol â hynny, ystyriai'r pwyllgor ei bod yn briodol atal trwydded y Gyrrwr nes byddai wedi llwyddo yn y prawf gwybodaeth. Byddai methiant gan y Gyrrwr i lwyddo yn y prawf yn arwain at ddwyn y mater yn ôl gerbron y pwyllgor yn y cyfarfod nesaf, pan roddid ystyriaeth ddifrifol i ddirymu ei drwydded ar sail y ffaith nad oedd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

8 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – GYRRWR RHIF 043844

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) ar –

- (i) Addaswyd Gyrrwr Rhif 043844 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat;
- (ii) Roedd y Gyrrwr wedi cronni 12 pwynt cosb ar ei drwydded DVLA mewn cyfnod o dair blynedd ond roedd Ynadon Prestatyn wedi caniatáu iddo gadw ei drwydded DVLA, ar ôl derbyn y byddai ei wahardd yn achosi caledi eithriadol yn ei achos ef;
- (iii) Roedd manylion y cosbau ar Drwydded DVLA y Gyrrwr wedi eu darparu, gyda thair yn ymwneud â defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd;
- (iv) Polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a

- (v) Bod yr Ymgeisydd wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi adolygiad ei drwydded ac i ateb cwestiynau gan yr Aelodau ar y mater.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodedd o'r adroddiad a chadarnhau bod y Gyrrwr wedi cydweithredu trwy gydol y broses. Nododd yr aelodau nad oedd y Gyrrwr yn bresennol er gwaethaf cael ei wahodd i fynychu.

Ystyriodd yr aelodau ffeithiau'r achos ac ar ôl trafodaeth fe –

BENDERFYNWYD atal Gyrrwr Rhif 043844 rhag gyrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat am resymau diogelwch y cyhoedd a bod gofyn iddo fynychu Cwrs Ymwybyddiaeth Gyrru cyn dod â'r mater yn ôl gerbron cyfarfod nesaf y pwyllgor er mwyn asesu ymhellach ei addasrwydd i barhau fel gyrrwr trwyddedig, ac ailystyried yr ataliad a bennwyd.

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Ar ôl ystyried ffeithiau'r achos roedd gan yr aelodau bryderon difrifol ynglŷn ag ailadrodd y drosedd o ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru a oedd yn dangos difaterwch y Gyrrwr tuag at y gyfraith a diogelwch y cyhoedd. Mynegwyd pryderon dwys hefyd ynghylch goblygiadau difrifol gweithrediadau'r Gyrrwr, gyda chanlyniadau a allai fod yn farwol. Fodd bynnag, ystyria'r pwyllgor y byddai'r Gyrrwr yn elwa o fynychu Cwrs Ymwybyddiaeth Gyrru er mwyn newid ei ymddygiad. O ganlyniad, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gyrrwr fynychu ei gyfarfod nesaf er mwyn asesu ymhellach ei addasrwydd i barhau fel gyrrwr trwyddedig ar ôl iddo gwblhau'r Cwrs Ymwybyddiaeth Gyrru.

[Gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am gael cofnodi'r ffaith iddi bleidleisio yn erbyn y penderfyniad uchod.]

Ar y pwynt hwn (10.40 a.m.) cafwyd egwyl luniaeth.

SESIWN AGORED

Ar ôl cwblhau'r eitemau uchod, aeth y cyfarfod yn ei flaen mewn sesiwn agored.

9 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo blaenraglen waith y Pwyllgor Trwyddedu (Atodiad 1 i'r adroddiad) a blaenoriaethau'r Adran Gweinyddu Trwyddedu ar gyfer 2013/14.

Y prif elfennau a oedd yn gyrru'r blaenoriaethau oedd dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â'r swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi Trwyddedai ac ymrwymiad i gymunedau diogelach. Roedd pob un o'r blaenoriaethau wedi eu doddi o fewn rhaglen waith y pwyllgor ac roedd yn golygu adolygu'r meysydd canlynol –

- Polisiâu Casglu o Dŷ i Dŷ a Chasglu ar y Stryd

- Rheoliadau Marchnad y Rhyl
- Polisi ac amodau Gyrwyr Cerbyd Hacni / Cerbydau Hur Preifat
- Polisi ac amodau Gweithredwyr Cerbydau Hacni / Cerbydau Hur Preifat
- Ffioedd a Thaliadau

Derbyniodd yr aelodau y blaenoriaethau ar gyfer yr adran Drwyddedu ac roeddynt yn fodlon gyda'r amserlenni a bennwyd ym mlaenraglen waith y pwyllgor ac fe –

BENDERFYNWYD cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Trwyddedu (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) a'r Blaenoriaethau ar gyfer yr Adran Gweinyddu Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn 2013/14.

10 DIWEDDARIAD AR ADOLYGU FFOEDED A THALIADAU TRWYDDEDU

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn diweddar u'r aelodau ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag adolygu'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer 2013/14. Roedd dalen amser enghreifftiol a ddefnyddiwyd yn y broses gyfrifo ynghlwm wrth yr adroddiad.

Hysbyswyd y pwyllgor o adolygiad cynhwysfawr o bob swyddogaeth drwyddedu a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu lefel briodol ffioedd ynghyd â'r anawsterau a oedd yn gysylltiedig â'r broses. Byddai angen hefyd cynnwys adennill costau meddalwedd Trwyddedu mewn unrhyw ffioedd a thaliadau. Roedd cyngor cyfreithiol arbenigol yn cael ei geisio ar gyfrifo ffioedd trwyddedu er mwyn osgoi unrhyw heriau cyfreithiol. Rhagwelwyd y byddai adolygiad llawn o'r ffioedd a'r taliadau yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mawrth 2013.

Cymerodd yr aelodau y cyfle i holi'r swyddogion a gofyn am esboniad ar a ellid debydu amrywiol agweddau'r swyddogaeth drwyddedu er mwyn sicrhau swyddogaeth sy'n ariannu ei hunan. Holwyd yn benodol ynglŷn â'r costau a achoswyd i'r Pwyllgor Trwyddedu megis amser aelodau a swyddogion. Ymatebodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) i gwestiynau'r aelodau gan ddweud, lle'n bosibl, bod y ffioedd trwyddedu a godwyd yn ceisio adennill cost gweinyddu'r swyddogaeth a bod cyngor cyfreithiol arbenigol yn cael ei geisio i sicrhau bod cyfrifiad ffioedd yn briodol ar gyfer pob swyddogaeth unigol. Gofynnid am gyngor hefyd o ran a ellid gwrthbwysu amser a dreuliwyd yn y Pwyllgor Trwyddedu yn erbyn ffioedd trwyddedu. Byddai angen gwybodaeth bellach gan ddeiliaid y gyllideb drwyddedu er mwyn ateb cwestiynau'r aelodau'n llawn mewn perthynas â chwestiynau aelodau ar wariant penodol ar swyddogaethau penodol. Nodwyd bod Emlyn Jones wedi ei benodi'n ddiweddar fel Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd gyda chyfrifoldeb am y swyddogaeth drwyddedu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Joan Butterfield at yr hyfforddiant trwyddedu yr oedd ei angen gan holl aelodau pwyllgor a holodd ynglŷn â rôl sylwedyddion mewn cyfarfodydd ac i ba raddau y caniatwyd eu cyfranogiad hwy mewn materion a oedd yn cael eu hystyried. Cytunodd y Prif Gyfreithiwr holi ynglŷn â hyn gyda'r Swyddog Monitro ac adrodd yn ôl.

Cydnabu'r pwyllgor yr amser a'r ymdrech a dreuliodd ar yr adolygiad a chymryd y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith caled.

PENDERFYNWYD –

- (a) *derbyn a chydabod yr adroddiad, a*
- (b) *cyflwyno adolygiad llawn o ffioedd a thaliadau i gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.*

**11 DEDDF DIWYGIO'R HEDDLU A CHYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL 2011 –
ARDOLL HWYR Y NOS A GORCHYMYN CYFYNGU BORE CYNNAR**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn amlinellu'r pwerau newydd a oedd ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu o 31 Hydref 2012 dan ddiwygiadau i Ddeddf Drwyddedu 2003 i wneud Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar (EMRO) a phennu Ardollau Hwyr y Nos (LML).

Rhodddwyd peth gwybodaeth gefndir i'r aelodau ar gyflwyniad yr EMRO a'r LNL, a'u bwriad i ddelio â throedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol a helpu talu am gostau gorfodi ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag eiddo sy'n agor yn hwyr. Roedd pwyntiau allweddol yn cynnwys -

ARDOLLAU HWYR Y NOS (LNL)

- Pwerau i awdurdodau lleol godi tâl ar safle yn gwerthu alcohol yn hwyr y nos am y costau gorfodi ychwanegol a achosir i'r heddlu ac awdurdodau lleol
- Pe cawsai ei chyflwyno, byddai angen i'r Cyngor benderfynu pryd y bydd yr ardoll yn berthnasol yn yr ardal (wedi ei gyfyngu i gyfnod rhwng hanner nos a 6.00a.m.) a pha eithriadau a gostyngiadau a fyddai'n berthnasol
- Byddai angen i'r ardoll fod yn berthnasol i bob safle (oni fo categori eithrio) sy'n gwerthu alcohol yn ystod cyfnod yr ardoll ac ni ellid ei gyfyngu i dref neu ardal benodol
- Ar ôl tynnu swm gan yr awdurdod lleol am weinyddu a chyflwyno'r cynllun, rhaid anfon o leiaf 70% o'r swm ymlaen i'r Heddlu
- Nid oedd yn rhaid i'r Heddlu wario eu cyfran hwy o'r ardoll mewn ardaloedd lleol lle'r oedd wedi ei chasglu nac ar blismona a oedd yn gysylltiedig â throedd ac anrhefn oherwydd alcohol, er bod Heddlu Gogledd Cymru wedi awgrymu y buasent hwy yn gwario'r ardoll ar faterion trwyddedu pe cawsai ei chyflwyno
- Manylion y gost i safleoedd pe cawsai ei chyflwyno yn seiliedig ar werth ardrethol
- Byddai rhyw 175 safle yn cael eu heffeithio gan yr ardoll.

GORCHMYNION CYFYNGU BORE CYNNAR (EMRO)

- Byddai EMRO yn berthnasol i drwydded safle, tystysgrif safle clwb a hysbysiadau digwyddiad dros dro a oedd yn digwydd mewn ardal EMRO benodol

- Roedd angen hysbysebu'r cynnig i wneud yr EMRO ac roedd angen i awdurdodau lleol ddangos bod ganddynt dystiolaeth i gyfiawnhau gwneud hynny ac ystyried sylwadau cyn eu cyflwyno.

Wrth ystyried yr adroddiad, cymerodd yr aelodau y cyfle i gael esboniad ar nifer o faterion gan y swyddogion ar y pwerau newydd a oedd ar gael i wneud LNL ac EMRO. Nododd yr Aelodau bod yr ardoll wedi ei phennu ar lefel genedlaethol, a mynegasant bryderon ynglŷn â'r taliadau arwyddocaol a achosid i safleoedd ledled y sir petai'r Cyngor yn dewis cyflwyno'r ardoll, boed y safleoedd hynny wedi eu lleoli mewn ardaloedd a oedd yn achosi problemau trosedd ac anhrefn oherwydd alcohol ai peidio. Roedd y pwyllgor yn cydnabod bod busnesau eisoes yn cael anhawster yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a theimlai y byddai cyflwyno ardoll ar safleoedd trwyddedig yn debygol o achosi i lawer ohonynt fynd allan o fusnes. Roedd y Cyngor yn gweithio'n galed i adfywio ei drefi a'i gymunedau a'r economi hwyr y nos, ac ystyriai'r pwyllgor y byddai cyflwyno ardoll mor drom yn niweidio'r economi lleol ymhellach. Nodwyd bod yr heddlu o blaid cyflwyno ardoll a'r refeniw a fyddai'n deillio, a'u bod wedi awgrymu, er nad oedd gofyniad, y buasant yn gwario'r refeniw hwnnw ar faterion trwyddedu. Fodd bynnag, nododd yr aelodau na fyddai gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros ddyraniad y refeniw hwnnw ac roeddynt yn bryderus y byddai'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gasglu'r ardoll ac os nad oedd safle yn talu yna roedd y Cyngor yn atebol am y ffi o hyd. Mewn perthynas â chyflwyniad EMRO, teimlai'r Cadeirydd y gallent fod yn ddefnyddiol i ddelio ag ardaloedd lleol a oedd yn achosi problem, ond yn ystod y drafodaeth nodwyd bod mesurau'n bodoli eisoes a fyddai'n fwy effeithiol, megis adolygu trwyddedau safleoedd.

Nododd y pwyllgor y byddai angen penderfynu ar gyflwyno Ardoll neu EMRO ar lefel y Cyngor Sir ac fe –

BENDERFYNWYD –

- cydnabod cynnwys yr adroddiad ar Ardollau Hwyr y Nos a Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar, a*
- peidio â chefnogi gwneud Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar a phennu Ardollau Hwyr y Nos a chyflwyno barn y Pwyllgor Trwyddedu i'r Cyngor Sir pan fyddai'n ystyried y mater hwn.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthin, Dydd Iau, 24 Ionawr 2013 am 2.00 pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Joan Butterfield, William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies (Cadeirydd), Barry Mellor, Win Mullen-James a/ac Cefyn Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Gyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Gorfodaeth (TWE) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ & SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr Brian Blakeley, Hugh Irving, Peter Owen ac Arwel Roberts

2 DATGANIAD O FUDDIANNAU

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol na rhagfarnus.

3 MATERION BRYN YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu cyflwyno.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD** dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.*

4 ADOLYGU ATAL TRWYDDED – GYRRWR RHIF 043844

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau adolygu cyfnod atal y drwydded a bennwyd gan y pwyllgor ar Yrrwr Trwyddedig rhif 043844. Cyflwynwyd ffeithiau'r achos fel a ganlyn –

- (i) Roedd y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2012 wedi ystyried addasrwydd Gyrwr Rhif 043844 i ddal trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat ar ôl cronni 12 pwynt cosb ar ei drwydded DVLA mewn cyfnod o dair blynedd [roedd y Gyrwr wedi cael cadw ei drwydded DVLA gan Ynadon Prestatyn a oedd wedi derbyn y byddai anghymhwysiad yn achosi caledi eithriadol yn ei achos ef];
- (ii) Ystyriwyd manylion yr ardystiad ar drwydded DVLA y Gyrwr, gyda thri o'r achosion yn ymwneud â defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd, gyda'r

aelodau yn mynegi pryderon dybryd ynglŷn â goblygiadau difrifol gweithredoedd y Gyrrwr, gyda chanlyniadau marwol posibl a'r drosedd a ailadroddwyd o ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru, ac roeddynt yn ystyried bod hynny yn dangos difaterwch y Gyrrwr tuag at y gyfraith a diogelwch y cyhoedd;

- (iii) Yn ystod y trafodaethau, ystyriodd y Pwyllgor Trwyddedu y byddai'r Gyrrwr yn elwa o fynychu Cwrs Ymwybyddiaeth i Yrwy'r er mwyn newid ei ymddygiad a bod ei addasrwydd fel gyrrwr trwyddedig yn cael ei asesu ymhellach yn eu cyfarfod nesaf ar ôl iddo gwblhau'r Cwrs Ymwybyddiaeth i Yrwy'r; o ganlyniad fe –

*“**BENDERFYNWYD** atal Gyrrwr Rhif 043844 rhag gyrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat am resymau diogelwch y cyhoedd a'i gwneud yn ofynnol ei fod yn mynd ar Gwrs Ymwybyddiaeth i Yrwy'r cyn dwyn y mater yn ôl gerbron cyfarfod nesaf y pwyllgor (ar 5 Mawrth 2013) er mwyn asesu ymhellach ei addasrwydd i barhau fel gyrrwr trwyddedig ac ailystyried y cyfnod atal a bennwyd.”;*

- (iv) Bod y Gyrrwr wedyn wedi apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu i Lys yr Ynadon ac ar 19 Rhagfyr 2012 gwrthododd yr Ynadon yr Apêl ond mynegwyd pryderon ynglŷn â hyd y cyfnod atal a bennwyd a phenderfynu bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu cyn gynted ag y bo modd i ganiatáu adolygu'r cyfnod atal;
- (v) Bod y Gyrrwr wedi mynychu Cwrs Ymwybyddiaeth i Yrwy'r ar 19 Ionawr 2013 yn unol â chyfarwyddyd y Pwyllgor Trwyddedu (dosbarthwyd copi o Adroddiad Asesu'r Gyrrwr cyn y cyfarfod), a
- (vi) Bod Gyrrwr Rhif 043844 wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi adolygiad ei drwydded ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar y mater.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) grynodedb o'r adroddiad a dywedodd bod y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod.

Anerchodd Gyrrwr Rhif 043844 y pwyllgor i gefnogi ei achos, gan ddweud ei fod yn yrrwr profiadol am 25 o flynyddoedd ac nad oedd erioed wedi bod mewn damwain yn ystod y cyfnod hwnnw. Ymhelaethodd ar ei brofiad gyrru yn y DU ac mewn gwledydd eraill a'i brofiad o yrru amrywiaeth eang o gerbydau gwahanol. Sicrhaodd y Gyrrwr y pwyllgor iddo ymddwyn yn ffôl trwy ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru, ac nad oedd yn gwneud hynny yn rheolaidd ac esboniodd yr amgylchiadau pan ddigwyddodd pob un o'r troseddau. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd bod y Gyrrwr wedi dioddef caledi eithriadol o ganlyniad i atal ei drwydded, gyda'r golled mewn enillion yn ei adael gydag anawsterau ariannol. Datgelwyd manylion ei amgylchiadau personol o ran ei gyfrifoldebau a'i ymrwymadau teuluol. Yna adroddodd y Gyrrwr ar ei bresenoldeb ar y Cwrs Ymwybyddiaeth i Yrwy'r, fel y'i cyfarwyddwyd gan y pwyllgor, gan nodi'r gwelliannau i'w yrru o ganlyniad. Wrth gloi, roedd y Gyrrwr yn cydnabod iddo gamymddwyn; ailadroddodd y caledi roedd wedi ei ddioddef o ganlyniad i atal ei drwydded, a gofynnodd i'r aelodau edrych yn ffafriol ar yr adolygiad o'i drwydded.

Cymerodd yr aelodau'r cyfle i holi'r Gyrrwr ynglŷn â'i ymddygiad yn y gorffennol a gofyn am sicrhad ynglŷn â'i ymddygiad i'r dyfodol. Dywedodd y Gyrrwr ei fod wedi bod yn defnyddio teclyn ffôn symudol yn y glust, a oedd wedi ei ddwyn o'r car, a bod dyfais sefydlog nawr wedi ei gosod yn y car. Ychwanegodd nad oedd yn defnyddio ffôn symudol yn y car yn rheolaidd beth bynnag gan ei fod yn defnyddio dyfais PDA ar gyfer gwaith. Mewn ymateb i gwestiwn ar y defnydd priodol o gyflymder a grybwyllwyd yn yr adroddiad Asesu Gyrrwr, sicrhaodd y Gyrrwr nad oedd yn gor-yrru ond yn gyrru ryw 25 mya fel rheol. Ei unig gollfarn am or-yrru oedd am yrru 33 mya mewn ardal 30 mya.

Gwrthododd y Gyrrwr y cyfle i holi'r aelodau neu'r swyddogion a dywedodd nad oedd eisiau ychwanegu at ei gyflwyniad na gwneud datganiad terfynol.

Ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried y cais ac ar ôl trafodaeth, fe –

BENDERFYNWYD codi'r cyfnod atal a bennwyd ar Yrrwr Rhif 043844 a rhoi rhybudd mewn perthynas â'i ymddygiad yn y dyfodol.

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Wrth ddod i benderfyniad roedd yr aelodau wedi cymryd i ystyriaeth bryderon yr Ynadon ynglŷn â hyd y cyfnod atal a bennwyd yn wreiddiol; yr amgylchiadau lliniaru mewn perthynas â phob un o'r tair trosedd a esboniwyd gan y Gyrrwr; iddo fynd ar Gwrs Ymwybyddiaeth i Yrwyr, a'r adroddiad asesu gyrrwr a gynhyrchwyd ynghyd â'i sicrhad mewn perthynas â'i ymddygiad yn y dyfodol. Roedd y pwyllgor wedi ei sicrhau gan bresenoldeb y Gyrrwr ar y Cwrs Ymwybyddiaeth i Yrwyr; y ffaith iddo gydnabod iddo gamymddwyn a'i edifeiriwch ynglŷn â'r troseddau a'i ymgymeriad i newid ei ymddygiad yn y dyfodol i sicrhau na fyddai'r drosedd yn cael ei hailadrodd. Er gwaethaf hynny, ailadroddodd yr aelodau natur ddifrifol y troseddau a'r canlyniadau marwol posibl yn deillio o weithredoedd y Gyrrwr yn defnyddio ei ffôn symudol wrth yrru ac felly rhoddwyd rhybudd llym mewn perthynas â'i ymddygiad yn y dyfodol.

Bu i'r Cadeirydd gyfleu penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu a'r rhesymau am y penderfyniad i Yrrwr Rhif 043844 a phwysleisio difrifoldeb y troseddau, nad oedd y pwyllgor yn eu disystyru a'i rybuddio ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol. Fe'i gwnaed yn glir pe byddai'r Gyrrwr yn dod gerbron y Pwyllgor eto ynglŷn â'r mater hwn, y byddai ei drwydded mwy na thebyg yn cael ei dirymu.

SESIWN AGORED

Ar ôl cwblhau'r uchod, aeth y cyfarfod yn ei flaen mewn sesiwn agored.

5 CWRS YMWYBYDDIAETH I YRWYR

Cyn i'r cyfarfod ddod i ben, gwnaeth yr aelodau sylwadau ar fanteision mynychu Cwrs Ymwybyddiaeth i Yrwyr ar gyfer gyrrwr trwyddedig a thrafod opsiynau hyfforddi posibl gyda'r swyddogion. Adroddodd y Swyddog Trwyddedu ar argaeledd cyrsiau priodol a rhoddodd drosolwg byr o gynnwys y cwrs, yn delio ag asesiad

ymarferol ac asesiad mewn gweithdy ynghyd â chostau dangosol. Awgrymodd yr Aelodau y dylid ystyried cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth i yrwyr ar gyfer gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hur preifat fel rhan o'r adolygiad o'r polisi a'r amodau a oedd ar y gweill ar hyn o bryd. Ar ôl trafodaeth bellach fe –

BENDERFYNWYD –

- (a) *ystyried cyflwyno Cwrs Ymwybyddiaeth i Yrwyr fel rhan o'r broses o wneud cais am drwydded gyrrwr cerbydau hacni a cherbydau hur preifat gyda chost y cwrs yn cael ei dalu gan yr Ymgeisydd, a*
